OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3186 (Cy.302)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*18 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dyddiad prisio

2. 1 Ebrill 2003 yw'r diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 (Prisio ar gyfer ardrethu annomestig) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion rhestrau ardrethol annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2005.

Dirymu

3. Dirymir Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) 1998(**3**) i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru.

(**1**) 1988 p. 41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1998/93